



Gwahodd teuluoedd bedydd i'r eglwys adeg y Nadolig

Y Nadolig yw un o'r adegau hyfrytaf i fynd i'r eglwys, ac mae'n amser gwych i ailgysylltu â theuluoedd bedydd. Bydd llawer o eglwysi'n cynnal gwasanaethau arbennig i blant a theuluoedd, fel Cristingl, gwasanaeth carolau, gwasanaeth drama'r geni a mwy, felly mae llawer o gyfleoedd i wahodd teuluoedd i gymryd rhan.

Efallai y bydd gan eich eglwys leol lawer o bethau i'w gweld a'u gwneud dros y Nadolig – sy'n wych fel ffordd o helpu plant i ddeall ystyr yr holl fwyd a'r rhoddion, a chael hwyl hefyd.

Cristingl

Mae gwasanaethau Cristingl yn weledol ac yn cynnwys cyfleoedd di-ri i gymryd rhan felly maen nhw'n boblogaidd iawn gyda theuluoedd. Mae Cristingl yn defnyddio symbol arbennig, oren wedi'i addurno, i ystyried stori cariad Duw i'r byd adeg y Nadolig.

- Mae'r oren yn cynrychioli'r byd.
- Mae ffrwythau neu fferins sy'n cael eu pinio i'r oren yn cynrychioli cread Duw a bendithion y tymhorau.
- Mae'r gannwyll sydd wedi'i gosod yn yr oren yn cynrychioli Iesu, goleuni'r byd yn dod â gobaith i'r rhai mewn tywyllwch.
- Mae'r rhuban coch o gwmpas yr oren yn cynrychioli cariad Duw a gwaed Iesu.

Gwasanaeth y Preseb

Mae'r rhan fwyaf o eglwysi'n cynnal gwasanaeth i blant a theuluoedd yn seiliedig ar stori'r Nadolig hefyd. Mae rhai eglwysi'n gwneud hyn drwy ddefnyddio pypedau neu drwy ddod â ffigurau set ddrama'r geni yn raddol at y preseb a'u trefnu o'i amgylch.

Mae eglwysi eraill yn gwahodd pawb i wisgo yng ngwisgoedd drama'r Geni a'i actio, gan ganu hoff garolau i helpu i adrodd yr hanes. Dyma ffordd wych a hwyliog i deuluoedd a phlant gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon, a does dim ots os oes deg wedi gwisgo fel Mair!

Gwasanaeth carolau

Rydym yn clywed carolau mor aml yn y siopau ac ar y radio fel eu bod yn swnio fel cerddoriaeth gefndir ym mis Rhagfyr. Ond byddai llawer o bobl yn cydnabod bod eu clywed mewn eglwys fel rhan o stori'r Geni yn rhywbeth arbennig. Weithiau mae'r geiriau yn weddiâu drosom ni neu'r byd rydym yn byw ynddo, fel y rhain o 'l orwedd mewn preseb':

“Tyrd, Iesu, i'm hymyl, ac aros o hyd i'm caru a'm gwylio tra bwyf yn y byd.”

Gwasanaethau a digwyddiadau i bawb.

- Naw Llith a Charol neu wasanaeth bore'r Nadolig.

Gwasanaethau eraill sy'n boblogaidd gyda theuluoedd

- **Lle i orffwys a chofio** - Meddyliwch am ddarparu lle i bobl ddod a bod yn dawel, neu i gofio pobl sydd wedi marw. Gall llawenydd y Nadolig ymddangos yn bell i ffwrdd, yn enwedig os mai dyma'r Nadolig cyntaf heb y person sydd wedi marw.
- **Gwyliau a digwyddiadau'r Nadolig** - Bydd llawer o eglwysi'n cynnal digwyddiadau cymdeithasol neu godi arian ychwanegol yn y cyfnod cyn y Nadolig, a all fod yn gyfleoedd gwych i wahodd pobl eraill o'r gymuned leol sy'n awyddus i brynu rhoddion a chynnyrch cartref munud olaf. Mae rhai eglwysi'n cynnal gweithgareddau arbennig i blant hefyd, gyda chrefftau a chanu.
- **Gwyliau** - Meddyliwch am gynnal gŵyl thema yn y cyfnod cyn y Nadolig. Gall hon fod yn 'ŵyl coed Nadolig' neu'n 'ŵyl set drama'r Geni', rhywbeth sy'n rhoi cyfle i grwpiau cymunedol lleol gymryd rhan yn addurno'r eglwys, ac i bawb ddod a mwynhau gweld yr eglwys wedi'i haddurno'n barod ar gyfer y Nadolig.

Gall amser gwasanaethau a'r math o wasanaeth wneud gwahaniaeth go iawn i ba mor gyffyrddus y mae rhieni'n teimlo am ddod â phlant bach i'r eglwys, ac mae llawer o wasanaethau Nadolig yn arbennig o addas i deuluoedd. Felly, mae'r Nadolig yn amser gwych i ailgysylltu â theuluoedd bedydd ac eraill.